Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Bettws Lifehouse

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2017

## gan


## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/09/2017**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol mewn pentref bach gwledig yn y Canolbarth yw Bettws Lifehouse. Agorodd yr ysgol yn 2007. Mae'n darparu addysg ddydd ar gyfer disgyblion rhwng 9 ac 19 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA). Caiff disgyblion eu lleoli yno gan awdurdodau yng Nghymru a Lloegr.

Adeg yr arolygiad hwn, mae datganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynlluniau addysg a gofal iechyd gan bob disgybl, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleoli.

Ers yr ymweliad diwethaf, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gais yr ysgol i gynyddu nifer y disgyblion y mae'n eu derbyn o 20 i 30.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn darparu addysg ran-amser ar gyfer ychydig iawn o ddisgyblion. Mae'n gweithredu safle lloeren yn Y Trallwng hefyd.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Dros gyfnod, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu, maent yn gwella eu lles emosiynol ac yn datblygu'r medrau i reoli eu hymddygiad yn llwyddiannus.

Mae disgyblion hŷn yn ennill ystod briodol o gymwysterau ac achrediad am eu dysgu, gan gynnwys cymwysterau TGAU a Gwobr Dug Caeredin.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi.

Mae profiadau dysgu yn ddiddorol ac yn canolbwyntio ar y disgybl, gyda ffocws addas ar ennyn diddordeb disgyblion a datblygu eu medrau cyfathrebu, eu hyder a'u hunan-barch.

Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddarparu cymorth sensitif a thra ystyriol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda theuluoedd i helpu i gynorthwyo datblygiad emosiynol disgyblion.

Mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd da o ran bodloni'r argymhellion o'r ymweliad monitro blaenorol.

### Meysydd i'w datblygu

Nid oes gan yr ysgol weithdrefn effeithiol i sefydlu gwaelodlin glir o allu disgyblion pan fyddant yn cychwyn ar gyfer asesu eu cynnydd yn y dyfodol.

Mae staff yn rhoi adborth llafar effeithiol i ddisgyblion mewn gwersi. Fodd bynnag,

nid yw adborth ysgrifenedig bob amser yn rhoi cyngor clir i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol systemau ar wahân i asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw staff yn defnyddio’r systemau hyn yn ddigon da i gynllunio a monitro camau bach ac arwyddocaol disgyblion o ran gwneud cynnydd.

Nid yw arweinwyr yn defnyddio data am gynnydd disgyblion yn effeithiol i lywio cynllunio strategol a gwelliant.

**Argymhellion**

A1 Datblygu gweithdrefn gyson i sefydlu gwaelodlin glir o anghenion a galluoedd disgyblion ar gyfer asesu cynnydd yn y dyfodol

A2 Sefydlu system olrhain gyson i fonitro camau bach ac arwyddocaol mewn cynnydd trwy gydol cyfnod y disgyblion yn yr ysgol

A3 Gwneud yn siŵr bod adborth yn effeithiol ac yn dangos meysydd i’w gwella

A4 Parhau i ddatblygu ffyrdd o ennyn diddordeb rhanddeiliaid mewn hunanarfarnu

A5 Cyflwyno cais am newid defnydd i Lywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio’r ail safle

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Datblygu prosbectws ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r prosbectws yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a rhanddeiliaid eraill am yr ysgol.

**Argymhelliad 2: Cynnwys staff, disgyblion a rhanddeiliaid eraill yn y broses hunanarfarnu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gwelliant sylweddol wedi bod yn y ffordd y mae'r ysgol yn cynnwys disgyblion a staff yn y broses hunanarfarnu. Erbyn hyn, mae disgyblion yn trafod pa mor dda y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer a beth fyddai'n gwella eu profiadau dysgu yn eu cyfarfodydd cyngor ysgol. Mae cyfarfodydd staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer cynnwys staff mewn trafod ac arfarnu addysgu a dysgu. Mae awdurdodau lleoli yn cymryd rhan mewn arfarnu gwaith yr ysgol erbyn hyn. Caiff mewnbwn disgyblion, staff ac awdurdodau lleoli ei werthfawrogi'n fawr ac mae'n bwydo'n uniongyrchol i gynllunio datblygiad yr ysgol.

Nid yw mewnbwn rhieni, trwy holiaduron blynyddol, yn bwydo i'r broses arfarnu a gwella'r ysgol eto.

Mae ymglymiad rhanddeiliaid yn parhau i fod yn faes i'w wella.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys camau gweithredu a graddfeydd amser clir**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r fformat diwygiedig ar gyfer cynllun datblygu'r ysgol yn rhoi dealltwriaeth glir i staff ac arweinwyr o'r camau gweithredu a'r raddfa amser ar gyfer gwelliannau arfaethedig.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Bettws Lifehouse |
| **Rhif yr ysgol** | 6666048 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 12/07/2017 |
| **Perchennog** | Meg Jones, Kay Jones ac Adrian Jones |
| **Staff** | 1 pennaeth, 4 o athrawon amser llawn, 5 o athrawon rhan-amser, 2 hyfforddwr amser llawn ac 8 hyfforddwr rhan-amser. |
| **Nifer y disgyblion** | 24 o ddisgyblion amser llawn a 3 disgybl rhan-amser |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae’r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, anhwylderau’r sbectrwm awtistig ac anawsterau dysgu cymedrol. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 07/05/2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/05/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Susan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |